

Y Cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers – Gwybodaeth Atodol

Data Disgyblion:

A: Tabl 1- Nifer ar y Gofrestr, Blynyddoedd 2011 i 2014:

Ysgol Uwchradd John Summers

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	336	322	333	311
Blwyddyn 12 (16-17)	28	29	21	24
Blwyddyn 13 (17-18)	21	25	26	26
Cyfanswm	385	376	380	361

Ysgol Uwchradd Cei Connah

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	862	847	808	792
Blwyddyn 12 (16-17)	89	67	85	67
Blwyddyn 13 (17-18)	48	51	48	45
Cyfanswm	999	965	941	904

Ysgol Uwchradd Penarlâg

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	965	971	956	962
Blwyddyn 12 (16-17)	104	110	109	103
Blwyddyn 13 (17-18)	97	108	95	87
Cyfanswm	1166	1189	1160	1152

Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	504	466	422	420
Blwyddyn 12 (16-17)	55	56	50	46
Blwyddyn 13 (17-18)	26	41	42	39
Cyfanswm	585	563	514	505

Tabl 2 – Rhagamcan o Nifer y Disgyblion

Rhagamcan o nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd John Summers (Gan ragdybio y daw'r ddarpariaeth ôl-16 i ben ym mis Medi 2016)

	Gwir nifer Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
7-11	311	310	305	306	301	327
Blwyddyn 12 - 13	50	43				
Cyfanswm ar y Gofrestr	361	353	305	306	301	327

Rhagamcan o nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Cei Connah (Gan ragdybio y daw'r ddarpariaeth ôl-16 i ben ym mis Medi 2016)

	Gwir nifer Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
7-11	792	851	875	852	853	881
Blwyddyn 12 - 13	112	96				
Cyfanswm ar y Gofrestr	904	947	875	852	853	881

Rhagamcan o nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Penarlâg

	Gwir nifer Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
7-11	962	968	967	968	970	972
Blwyddyn 12 - 13	190	184	186	185	185	185
Cyfanswm ar y Gofrestr	1152	1152	1153	1153	1155	1157

Rhagamcan o nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney (Gan ragdybio y daw'r ddarpariaeth ôl-16 i ben ym mis Medi 2016)

	Gwir nifer Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
7-11	420	442	446	465	496	512
Blwyddyn 12 - 13	85	80				
Cyfanswm ar y Gofrestr	505	522	446	465	496	512

Gwybodaeth ychwanegol o Arolygiadau Estyn

Allwedd i Ddiffiniadau Arfarniadau Estyn

Yn ystod pob arolwg, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn Rhagorol	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Da	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Digonol Anfoddhaol	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Ysgol Uwchradd John Summers

Cynhaliodd Estyn ei arolygiad diwethaf yn Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Ionawr 2011; roedd adroddiad yr arolwg yn nodi fel a ganlyn:

Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd John Summers a gynhelir gan Awdurdod Unedol Sir y Fflint. Lleolir yr ysgol ar gampws mawr yn Queensferry.

Mae 405 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 52 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf roedd 515 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 59 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae 29 aelod o staff addysgu (cyfwerth ag amser llawn) a 23 aelod o staff cymorth (cyfwerth ag amser llawn) yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sydd wedi dioddef amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Roedd dros 30% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1 %.

Mae gan 3.4 % o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae angen cymorth ychwanegol ar 17 % o ddisgyblion eraill. Canran y disgyblion o oed gofodol ar y gofrestr AAA yw 38 %, sydd yn uwch na'r Cyfartaledd Cenedlaethol o 20.9%. Yn 2010, roedd 32% o ddisgyblion 15 oed ar y gofrestr AAA.

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae cyfran fach o ddisgyblion yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol.

Darperir addysg ôl-16 yn yr ardal gan Gonsortium Ysgolion Glannau Dyfrdwy sy'n cynnwys tair ysgol uwchradd arall a'r coleg addysg bellach lleol.

Mae'r uwch dîm reoli yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth ac un pennaeth cynorthwyol. Penodwyd y dirprwy bennaeth a'r pennaeth cynorthwyol i'w swyddi presennol yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

Nod yr Ysgol yw 'Cyflawni Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd'.

Cyllideb ysgol unigol fesul disgybl Ysgol John Summers yn 2010/2011 yw £4169 sy'n cymharu ag uchafswm o £4429 ac isafswm o £3557 ar gyfer ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint. Yr ysgol hon sydd â'r gyllideb fesul disgybl ail uchaf o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon yr ysgol i wella	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae hon yn ysgol dda oherwydd:

A1 bod safonau a lles yn dda ac yn gwella;

A2 bod ethos eithriadol o gryf yn bodoli yn yr ysgol;

A3 bod y ddarpariaeth yn effeithiol iawn i ddiwallu anghenion dysgwyr; a

A4 bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn arbennig o effeithiol.

Rhagolygon i wella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwych i wella oherwydd:

- bod arweinyddiaeth y pennaeth yn ysbrydoledig ac yn ysbrydoli;
- bod yr uwch arweinwyr yn cynnig cymorth rhagorol;
- bod yna dîm o staff da iawn, ac mae pob un ohonynt wedi ymrwymo i wella;
- bod gan yr ysgol record hynod o lwyddiannus dros y tair blynedd diwethaf a gwelwyd gwelliannau mawr yng nghanlyniadau arholiadau ac ymddygiad; a
- bod systemau gwych ar gyfer sicrhau ansawdd.

Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers:

A1: barhau i wella safonau a lles dysgwyr;

A2: gwella ansawdd yr adborth i ddygwyr ynglŷn â sut i wella eu gwaith;

A3: cryfhau ymhellach y gwaith o ddatblygu'r iaith Gymraeg a dimensiwn Cymreig y cwricwlwm; a,

A4: parhau i wella lefelau presenoldeb.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu presennol yr ysgol.

Gellir gweld adroddiad llawn ESTYN ar:

<http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644019>.

Gwybodaeth Ychwanegol o Arolygiadau Estyn ar gyfer Ysgolion Uwchradd yn yr Ardal

Ysgol Uwchradd Cei Connah

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn yn Ysgol Uwchradd Cei Connah ym mis Mawrth 2011; roedd adroddiad yr arolygiad yn nodi fel a ganlyn:

Cyd-destun

Ysgol gymysg cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Cei Connah. Mae 992 o fyfyrwyr a disgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 113 yn y chweched dosbarth o'u cymharu â 973 a 75, yn y drefn honno, pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf.

Mae bron i 13% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o tua 15% ar gyfer ysgolion uwchradd. Nid oes dim disgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae 1% o'r dysgwyr ar hyn o bryd yn dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

Mae'r disgyblion a dderbynnir i'r ysgol yn cynrychioli'r ystod lawn o ran gallu. Mae gan ychydig o dan 2% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd yn 2002. Mae'r uwch dîm rheoli presennol yn cynnwys un dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod yr arwyddair "Gofalwn" yn realiti ym mywydau'r holl ddysgwyr. Mae'n gofalu am ddatblygiad academiaidd dysgwyr lawn cymaint â'u lles. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos â phum ysgol uwchradd arall a'r coleg addysg bellach lleol i wella darpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Cei Connah yn 2010-2011 yw £3602 sy'n cymharu ag uchafswm o £4429 ac isafswm o £3557 ar gyfer ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint. Yr ysgol hon sydd â'r ail gyllideb fesul disgybl isaf o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon yr ysgol i wella	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae Ysgol Uwchradd Cei Connah yn ysgol dda oherwydd ei bod wedi llwyddo i:

- godi safonau cyflawniad a lles dysgwyr;
- sefydlu cysylltiadau adeiladol â'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu;
- gwella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr, a
- cynllunio a sicrhau gwelliant.

Rhagolygon i wella

Mae'r rhagolygon i wella yn wych oherwydd:

- yr arweiniad strategol a roddir gan y pennaeth;
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r cymorth a roddir gan uwch reolwyr a rheolwyr canol;
- ymrwymiad staff i wella'n barhaus;
- record lwyddiannus dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi arwain at welliannau sylweddol, o ran canlyniadau arholiadau ac ymddygiad; a,
- systemau sicrhau ansawdd gwych.

Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Cei Connah:

R1: barhau i wella ymhellach safonau a lles dysgwyr;

R2: cryfhau'r gwaith o ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm; a

R3: parhau i wella lefelau presenoldeb.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu presennol yr ysgol.

<http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644022/>

Ysgol Uwchradd Penarlâg

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn yn Ysgol Uwchradd Penarlâg ym mis Tachwedd 2009 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2010, roedd adroddiad yr arolygiad yn nodi fel a ganlyn:

Cyd-destun

Ysgol gyfun cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Penarlâg ac mae 1,114 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys tua 181 yn y chweched dosbarth. Mae nifer y disgyblion yn yr ysgol yn fwy na nifer y lleoedd ac mae'r chweched dosbarth tua 20% yn fwy nag ar adeg yr arolygiad diwethaf.

Daw'r disgyblion o ystod lawn o gefndiroedd sosio-economaidd a chymdeithasol, er mai nifer bychan a ddaw o ardaloedd difreintiedig. Mae tua 6% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o tua 15% ar gyfer ysgolion uwchradd. Nid oes dim disgyblion o gartrefi Cymraeg, na disgyblion sy'n siarad y Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon cyfwerth.

Derbynnir disgyblion i'r ysgol ar sail hollol gyfun ac mae'r ysgol yn cynnwys canran weddol fawr o ddisgyblion â gallu uwch na'r cyffredin. Mae gan ychydig dros 2% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o'i gymharu â 3% ar gyfer Cymru gyfan. Hefyd, mae gan yr ysgol uned ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol.

Bu nifer o newidiadau yn arweinyddiaeth yr ysgol er dyddiad yr arolygiad diwethaf. Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym mis Ionawr 2007. Ers hynny, newidiwyd y grŵp arweiniol a phenodwyd dirprwy bennaeth newydd ym mis Medi 2007 a phennaeth cynorthwyol newydd ym mis Medi 2009. Crëwyd nifer o swyddi penaethiaid cyswllt hefyd o fewn y grŵp arweiniol er mis Ionawr 2008.

Yn ddiweddar cyflwynwyd nifer o welliannau i'r adeiladau ac i'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Cyflwynodd yr ysgol Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2008. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol, megis Gwobr Rhagoriaeth Gofal Cwsmeriaid, Buddsoddwyr mewn Pobl, Safon Arweinyddiaeth a Rheolaeth a MarcActif Cymru.

Nodau'r ysgol yw datblygu "potensial pob disgybl i'r eithaf, fel unigolion ac aelodau cyfrifol o'r gymuned, a'u paratoi ar gyfer oes o ddysgu".

Crynodeb

Barn gyffredinol ar yr ysgol	Da
Rhagolygon i wella	Rhagorol

Barn gyffredinol

Mae hon yn ysgol dda oherwydd:

- bod safonau a lles yn dda ac yn gwella; a
- bod y ddarpariaeth yn dda ac yn cynnwys rhai agweddau eithriadol, megis y cwricwlwm.

Rhagolygon i wella

Mae rhagolygon yr ysgol i wella yn wych oherwydd:

- arweinyddiaeth eithriadol y pennaeth a'r uwch staff eraill;
- record hynod o lwyddiannus dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi arwain at welliannau sylweddol, er enghraifft yn y canlyniadau, y cwricwlwm a gweithio mewn partneriaeth;
- systemau cadarn sydd wedi'u hen sefydlu i adolygu cynnydd a nodi meysydd i'w gwella; a
- blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliannau a gefnogir gan gynlluniau addas ac adnoddau a ddyrannwyd.

Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Penarlâg:

- barhau i wella ymhellach safonau a lles disgyblion;*
- cryfhau rôl y rheolwyr canol yn y trefniadau hunanwerthuso;*
- ymestyn arferion gorau o ran addysgu*;
- sicrhau bod cysondeb wrth farcio gwaith disgyblion;*
- penodi disgybl-lywodraethwyr cyswllt;

- rhoi mwy o lais i ddisgyblion benderfynu beth y maent yn ei ddysgu a sut; a
- cryfhau'r dull o gyflwyno rhifedd ar draws y cwricwlwm.*

* Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Gellir gweld adroddiad llawn ESTYN ar:

<http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644000/>

Dewi Sant, Saltney

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant ym mis Ebrill 2011; roedd adroddiad yr arolygiad yn nodi fel a ganlyn:

Cyd-destun

Ysgol gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac mae 618 o fyfyrwyr a disgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 72 yn y chweched dosbarth o'u cymharu â 631 o ddisgyblion a myfyrwyr pan gynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol.

Mae bron i 12% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o tua 15% ar gyfer ysgolion uwchradd. Lleolir yr ysgol yn nhref Saltney, yn agos iawn at y ffin rhwng Sir y Fflint a Sir Gaer. Mae tua 12% o'r dysgwyr yn byw yn Lloegr. Nid oes dim dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae lleiafrif bychan iawn o ddysgwyr yn dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol ar hyn o bryd.

Mae'r disgyblion a dderbynnir i'r ysgol yn adlewyrchu'r ystod lawn o ran gallu. Mae gan ychydig dros 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd yn 2003. Er dyddiad yr arolygiad diwethaf, mae'r uwch dîm rheoli wedi'i ailstrwythuro. Bellach mae'n cynnwys dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol, a thri uwch athro.

Mae'r ysgol yn ceisio darparu addysg o ansawdd uchel i bob dysgwr er mwyn i bob un gyflawni ei botensial/ei photensial i'r eithaf.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos â phum ysgol uwchradd arall a'r coleg addysg bellach lleol i wella darpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn 2010-2011 yw £3732 sy'n cymharu ag uchafswm o £4429 ac isafswm o £3557 ar gyfer ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn y 5ed safle isaf o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon yr ysgol i wella	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn ysgol dda oherwydd ei bod wedi llwyddo i godi safonau cyflawniad a lles disgyblion a myfyrwyr. Y prif ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn yw:

- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth;
- gwelliant yn ansawdd yr addysgu;
- y defnydd o ddata i osod a monitro targedau; a'r
- cymorth ac arweiniad a gynigir i ddysgwyr.

Rhagolygon i wella

Mae rhagolygon yr ysgol i wella yn wych oherwydd:

- arweinyddiaeth strategol eithriadol y pennaeth;
- arweinyddiaeth a chymorth hynod effeithiol yr uwch reolwyr a rheolwyr canol;
- diwylliant o ddisgwyliadau uchel; a
- record lwyddiannus dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi gweld gwelliannau sylweddol yn lefelau cyflawniad dysgwyr.

Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dewi Sant:

A1: barhau i wella ymhellach safonau a lles dysgwyr;

A2: gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella cyfleusterau ym maes dylunio technoleg;

A3: cryfhau'r gwaith o ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm; a,

A4: parhau i wella lefelau presenoldeb.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu presennol yr ysgol.

Mae adroddiad llawn ESTYN ar gael ar:

<http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644013/>

Gwybodaeth Ychwanegol ynglŷn â Manteision ac Anfanteision y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers.

Manteision:

- Byddai cau'r ysgol yn arwain at leihad yn nifer y lleoedd sydd heb eu llenwi
- Costau refeniw llai o ran adeiladau, arweinyddiaeth, staffio a gweinyddu.
- Byddai arbedion o gymorth i leihau effaith llymder ar ddarpariaeth ysgolion uwchradd, gan wrthbwysu'n rhannol y cynnydd rhagweladwy yn y cymarebau disgybl-athro. Wrth i gyllidebau leihau'n flynyddol a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar brofiad dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth
- Byddai buddsoddiad cyfalaf a chostau trwsio a chynnal ar draws ystad yr ysgolion yn lleihau
- Bydd ysgolion mwy yn fwy gwydn yn ystod cyfnodau o lymder ariannol, ac mewn sefyllfa well i amsugo'r gostyngiadau cyllidebol, gan gynnig y cwricwlwm a'r cymorth priodol i'r holl ddysgwyr ar yr un pryd.

Anfanteision

- Byddai'r ddarpariaeth ysgol uwchradd yn dod i ben yn y gymdogaeth leol
- Byddai amser teithio mwyafrif y disgyblion yn hirach a byddai costau trafndiaeth i'r Awdurdod yn cynyddu o bosibl
- Caiff staff eu hadleoli neu eu diswyddo

Manteision y Sefyllfa Bresennol

- Byddai'r ddarpariaeth ysgol uwchradd yn parhau yn y gymdogaeth leol
- Ni fyddai effaith ar deithio i'r ysgol
- Byddai rhai aelodau staff yn parhau i weithio yn yr ysgol

Anfanteision y Sefyllfa Bresennol

- Dim lleihad yn y niferoedd mawr o leoedd gwag sydd dros ben
- Ni fyddai'r Cyngor yn gwneud unrhyw arbedion er mwyn amddiffyn profiad dysgwyr o'r ystafell ddosbarth yn ystod cyfnodau o leihau cyllidebau
- Byddai ystod y gost fesul disgybl yn parhau'n anghytwys ar draws ysgolion y sector uwchradd
- Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn yr ysgol ac nid oes llawer neu ddim argoel fod arian ar gael.
- Wrth i gyllidebau leihau'n flynyddol oherwydd llymder, y pryder parhaus yw y byddai'r Llywodraethwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd i fodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Mesur Dysgu a Sgiliau yn llawn, ac i ddarparu'r holl gymorth priodol i ddysgwyr.

Gwybodaeth Ariannol Ychwanegol

Yn 2015/16 derbyniodd Ysgol Uwchradd John Summers gyllideb ddirprwyedig o £1.610m drwy Fformiwla Ariannu Ysgolion Sir y Fflint. Byddai cau Ysgol Uwchradd John Summers yn arwain at arbediad effeithlonrwydd o £383 mil y flwyddyn sy'n cyfateb i'r arbediad ar elfennau penodedig y fformiwla ariannu sy'n ymwneud â gorbenion rheoli a chostau eiddo. Byddai'r £1.227m sy'n weddill yn dilyn y disgyblion ac yn cael ei ddyrannu ar sail fesul disgybl i'r ysgolion y bydd y disgyblion yn eu mynychu. Effaith aiddosbarthu'r adnoddau hyn fydd gwella cynaliadwyedd yr ysgolion sy'n weddill o fewn y rhwydwaith.

Gallu Ysgolion Uwchradd Lleol eraill i dderbyn disgyblion o Ysgol Uwchradd John Summers

O ran capasiti'r rhwydwaith ysgolion lleol, mae digon o gapasiti ar gyfer disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers o fewn y system addysg. Mae'r data isod yn cenfogi'r egwyddor honno:

Capasiti Ysgol Uwchradd Cei Connah yw 1102 a bydd hyn yn codi i 1164, ar ôl i ddisgyblion 6^{ed} dosbarth drosglwyddo i'r ganolfan ôl-16. Ym mis Ionawr 2015 roedd 170 o leoedd gwag yn yr ysgol ac amcangyfrifir y bydd y niferoedd yn codi i 289 erbyn mis Medi 2016.

Capasiti Ysgol Dewi Sant, Saltney, yw 687 a bydd hyn yn codi i 725, os bydd y cynnig i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 yn llwyddiannus. Ym mis Ionawr 2015 roedd 179 o leoedd gwag yn yr ysgol ac amcangyfrifir y bydd y niferoedd yn codi i 279 yn sgil colli'r 6^{ed} dosbarth.

Yn achos disgyblion sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 6 ac a fyddai fel rheol yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd John Summers, efallai mai Ysgol Uwchradd Penarlâg fydd yr ysgol agosaf iddynt. Byddai ceisiadau ar gyfer Ysgol Uwchradd Penarlâg yn cael eu rheoli yn unol â'r meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion a byddai'r disgyblion hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth.

Ar hyn o bryd mae pob ysgol uwchradd yn Sir y Fflint yn cyflenwi holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau. O ystyried capasiti ysgolion yr ardal a'r lleoedd gwag sydd yn yr ysgolion derbyn, mae ganddynt yr isadeiledd a'r cyfleusterau priodol er mwyn parhau i gyflawni eu gofynion i gyflenwi'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

Lliniaru Risg sy'n ymwneud â'r Cynnig

Heb ddweud gormod cyn dod i benderfyniad ar y cynnig, mae cynlluniau pontio yn cael eu datblygu gyda'r ysgolion uwchradd lleol i sicrhau y caiff risgiau eu lliniaru a'u rheoli drwy drefniadau pontio effeithiol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod cyfathrebu clir ac amserol rhwng Ysgol Uwchradd John Summers, ei disgyblion a'r ysgol bartner a ddewisir gan rieni a disgyblion. Darperir cymorth priodol i gefnogi disgyblion, rhieni/gofalwyr a staff wrth i'r Cyngor symud drwy'r broses, er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn cyngor a chymorth addas lle a phan fydd angen.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro niferoedd disgyblion a dewis rhieni drwy gydol y broses a bydd hyn yn brif flaenoriaeth.

Os bydd unrhyw faterion yn codi yn y tymor byr o ran lleoedd, er bod hynny'n anhebygol, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod lle addas yn y rhwydwaith lleol. Yn y tymor canolig mae'r Cyngor yn ystyried blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhwydwaith ysgolion lleol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud ag addasrwydd a chyflwr a fydd yn deillio'n uniongyrchol o'r cynnig. Mae hyn yn rhan o strategaeth y Cyngor ar gyfer ei Raglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru.

Bydd gweithdrefnau ariannu'r Cyngor yn golygu y bydd arian yn ôl uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl yn dilyn y disgyblion; bydd hyn yn galluogi'r ysgolion derbyn i ariannu adnoddau dysgu'n ddigonol er mwyn diwallu gofynion y cwricwlwm a rhoi cymorth i'r dysgwyr.

Mae pob ysgol uwchradd yn yr ardal yn defnyddio'r un systemau data disgyblion, felly ni waeth pa ysgol uwchradd lleol y bydd y disgyblion yn ei dewis, ni fydd dim risg o ran trosglwyddo data disgyblion.

Mae amseriad y dyddiad cau arfaethedig, ym mis Medi 2017, yn rhoi digon o amser i'r Cyngor ac ysgolion sy'n bartneriaid i drefnu'r gwaith o gynllunio cwricwlwm ar gyfer y cyfnod pontio ac i sicrhau bod digon o athrawon yn y fframwaith ysgolion lleol.

Ysgol Uwchradd John Summers (YUJS)

Cynllun Trefniadau Pontio o ran y Cwricwlwm a Derbyn Disgyblion DRAFFT 2015-2018

TROSOLWG ACADEMAIDD

Blwydd yn Academaidd	Blwyddyn 6	Blwydd yn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwydd yn 13
2015 - 2016	Hydref 2015 dewisiadau ar gyfer derbyniadau i YUJS 2016/17 i barhau fel dewis ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6	Dim newid	Dim newid	Blwyddyn dewis opsiynau – opsiynau YUJS yn y gwanwyn 2016	TGAU Blwyddyn 1	TGAU Blwyddyn 2	Dim newid	Dim newid
Disgwylir penderfyniad y Gweinidog ynglŷn ag Ysgol Uwchradd John Summers, newid ystod oedran Medi 2016 a chau'r ysgol 2017, yn y gwanwyn 2016								
2016-2017 (Blwydd yn Arfaethedig ar gyfer Newid Oedran)	Hydref 2016 Ni chaiff YUJS ei chynnig fel dewis	Y broses o ddewis ysgol bartner yn dechrau	Y broses o ddewis ysgol bartner yn dechrau	Opsiynau wedi'u dewis yn y gwanwyn 2016 disgyblion blwyddyn 9 yn dewis opsiynau'r ysgol bartner	TGAU Blwyddyn 1 (blwyddyn 9 flaenorol - 15/16) Dim newid i ddewisiadau TGAU YUJS	TGAU Blwyddyn 2 (blwyddyn 10 flaenorol 10 – 15/16) Dim newid i ddewisiadau TGAU YUJS	Canolfan Ddysgu ôl-16 yng Ngholeg Cambria	Canolfan Ddysgu ôl-16 yng Ngholeg Cambria
Yr ysgol yn cau'n swyddogol ar 31/08/2017								
2017-2018 (Blwydd yn arfaethedig ar gyfer cau'r ysgol)	Hydref 2017 Ni chaiff YUJS ei chynnig fel dewis	Amh.	Amh.	Ysgol bartner eisoes wedi'i dewis Opsiynau wedi'u dewis yn y gwanwyn 2017 ar sail cwricwlwm yr ysgol bartner newydd Disgyblion yn symud i'r ysgol bartner newydd	TGAU Blwyddyn 1 (blwyddyn 9 flaenorol – 16/17) Dewisiadau cwricwlwm yr ysgol bartner wedi'u cysoni yn ystod 2016/17	TGAU Blwyddyn 2 (2015-16) – Dewisiadau TGAU YUJS wedi'u lleoli yn yr ysgol bartner	Canolfan Ddysgu ôl-16 yng Ngholeg Cambria	Canolfan Ddysgu ôl-16 yng Ngholeg Cambria

Goblygiadau o ran Staffio

Petai'r cynigion presennol yn cael eu gweithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gydag aelodau staff presennol Ysgol Uwchradd John Summers, gan gynnwys staff addysgu a staff cymorth, petai hwy yn dymuno ystyried cyfleoedd i adleoli.

Fel rhan o'r broses ymgynghori byddwn yn ymgynghori'n llawn â'r staff, ac undebau llafur priodol y staff addysgu a'r staff cymorth. Cynhelir cyfarfod staff yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a bydd cynrychiolydd o wasanaeth AD y Cyngor yn bresennol i roi cyngor i'r staff.

Bydd corff llywodraethu'r ysgol yn defnyddio ei bolisi newid trefniadaethol a diswyddo ei hun lle bo'r angen a darperir cymorth addas i staff addysgu a staff cymorth ar yr adeg hwn gan dîm Arweiniol yr Ysgol a'r Cyngor.

Efallai y bydd cyfle i staff a gaiff eu disodli gael eu cyflogi o fewn y rhwydwaith Uwchradd lleol, o ystyried symudiad y disgyblion i ysgolion uwchradd eraill.

Effaith cau ar amseroedd teithio disgyblion

Petai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, bydd amseroedd teithio cyfran fawr o ddisgyblion yn hirach (yn dibynnu ar eu dewis ysgol a lle maent yn byw). Fodd bynnag, bydd amser pob taith yn llawer llai na'r hyn a nodir yng nghanllawiau'r Mesur Trafnidiaeth.

Bydd rhaniad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael trafniadaeth ysgol am ddim ynghyd â disgyblion nad ydynt yn gymwys. Yn achos y disgyblion nad ydynt yn gymwys, mae bysiau gwasanaeth rheolaidd yn gwasanaethu'r ardal leol a llwybrau cerdded digonol o fewn y gymuned.

Mae'n debygol y bydd y cynnig yn arwain at gynnydd yng nghostau trafniadaeth i'r Awdurdod, er na fydd yr union gostau yn hysbys nes y bydd y dewis o'r ysgol yn amlwg.

Ysgolion yn yr Ardal Leol

Ysgolion Uwchradd Lleol

Ysgolion cynradd agosaf

Ysgol Uwchradd John Summers Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Campws Queensferry Ffordd Caer Glannau Dyfrdwy CH5 1SE	Ysgol Gynradd Gymunedol Queensferry Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Campws Queensferry Ffordd Gorllewinol Caer Queensferry Glannau Dyfrdwy CH5 1SE
Ysgol Uwchradd Cei Connah Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Lôn Golftyn Cei Connah Glannau Dyfrdwy	Ysgol Wirfoddol a Gynhelir St Ethelwolds Categori: Ysgol Wirfoddol a Gynhelir, cyfrwng Saesneg Melrose Avenue

CH5 4BH	Shotton Glannau Dyfrdwy CH5 1NG
Ysgol Uwchradd Penarlâg Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg The Highway Penarlâg Glannau Dyfrdwy CH5 3DN	Ysgol Tŷ Ffynnon, Shotton Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Taliesin Avenue Shotton Glannau Dyfrdwy CH5 1HP
Ysgol Uwchradd Dewi Sant Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Teras Dewi Sant Saltney CH4 0AE	Ysgol Gynradd Gymunedol Sealand Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Farm Road Garden City Glannau Dyfrdwy CH5 2HH
	Ysgol Gynradd Gymunedol Sandycroft Categori: cymunedol, cyfrwng Saesneg Leaches Lane Mancot Glannau Dyfrdwy CH5 2EH

Map Ysgolion Lleol

